Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.4.13 Ariannu lleol - Castell-nedd Port Talbot

Crëwyd y daflen wybodaeth hon i roi manylion am grantiau bach sydd ar gael i grwpiau bach a sefydliadau o fewn sector gwirfoddol **Castell-nedd Port Talbot**. Bwriedir y wybodaeth fel canllaw cyffredinol, gall y cysylltiadau a roddir roi mwy o fanylion i chi am bob grant. Dylid darllen y daflen hon ar y cyd â **7.4.1 Grantiau Bach** sy'n rhoi manylion am y grantiau bach sydd ar gael ar sail rhanbarth neu Gymru gyfan.

Cynllun Grantiau Cyfalaf Castell-nedd Port Talbot 2011/2012

Nod: Grant lleol ar gyfer grwpiau sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gwasanaethau a fydd yn effeithio ar y strategaethau a ddatblygwyd yn lleol.

Pwy all wneud cais?
Sefydliadau gwirfoddol, elusennau a mentrau cymunedol:

- Sy'n cynrychioli, yn gwasanaethu neu'n cynorthwyo pobl sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot
- Sydd wedi eu lleoli ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (neu sy'n darparu gwasanaeth o fantais i breswylwyr Castell-nedd Port Talbot)
- Sydd â Dogfen Lywodraethu dderbyniol, e.e. cyfansoddiad, Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasau ac ati.

(***Gall*** cyrff crefyddol fod yn gymwys os ydynt yn darparu gwasanaeth cymunedol sy'n agored i bawb waeth beth yw eu ffydd ac sy'n gallu dangos na fydd eu prosiect yn hybu credoau crefyddol).

Rhoddir blaenoriaeth i grwpiau:

- Sydd heb dderbyn cyllid CFAP eisoes.
- Sydd ag incwm blynyddol sy'n llai na £50,000.
- Sy'n gweithio'n gydweithredol gyda sefydliadau eraill yn yr ardal.
- Sydd â thystiolaeth eu bod yn gweithio tuag at ganlyniadau cynaliadwy.
- Sy'n cyflawni gweithgareddau sy'n agored i bawb yn y gymuned.

Beth ellir ei ariannu ganddo?
Prosiectau Cyfalaf sy'n cynorthwyo i ddarparu cyfleusterau a chyfarpar sy'n helpu i gyflawni gweithgareddau sy'n hybu'r gwaith o adfywio cymunedau.

Faint?
Grantiau o £500 i £10,000

Dyddiad cau: Mae dau ddyddiad cau ar ôl ar gyfer 2011/2012, sef
14 Tachwedd 2011 a 14 Chwefror 2012

Cyswllt: Y Gweinyddwr Grantiau
CVS Castell-nedd Port Talbot, Tŷ Margaret Thorne, 17-19 Alfred Street, Castell-nedd, SA11 1EF Ffôn: 01639 632146
info@nptcvs.org.uk

Cynllun Grantiau Bach dan 8 oed

Nod: Rhoddir grantiau i helpu'r gwaith o ddatblygu a chynorthwyo grwpiau digofrestredig sy'n darparu cyfleusterau i blant dan 8 oed.

Pwy all wneud cais?
Grwpiau sydd heb eu cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) sy'n gweithio gyda phlant dan 8 oed. Gall grwpiau wneud cais unwaith yn unig mewn blwyddyn ariannol, ond gallant ail-ymgeisio yn y flwyddyn ganlynol.

Beth ellir ei ariannu ganddo?
Offer chwarae a deunyddiau i wella pob agwedd ar ddatblygiad plentyn, teganau, cyfarpar diogelwch, storfa a dodrefn, rhent am uchafswm o 26 sesiwn, deunyddiau hyrwyddo a hysbysebu, ffioedd aelodaeth i sefydliadau ymbarél ac yswiriant.

Faint?
Mae grantiau o hyd at £600 ar gael i grwpiau sydd wedi bod yn gweithredu am lai na 12 mis, a hyd at £400 i'r rhai sy'n hŷn na 12 mis.

Dyddiad cau: Mae'r panel yn cwrdd bob chwe wythnos.

Cyswllt: Judith Szwediuk, Swyddog Datblygu Strategol Plant a Phobl Ifanc,
CVS Castell-nedd Port Talbot, Tŷ Margaret Thorne, 17-19 Alfred Street, Castell-nedd, SA11 1EF
Ffôn: 01639 632146
info@nptcvs.org.uk

Banc Cyfleoedd Ieuenctid

Nod: Mae Banc Cyfleoedd Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot yn cael ei weithredu gan bobl ifanc i gynorthwyo grwpiau neu unigolion yn yr ardal gyda gweithgaredd sydd o fantais i bobl ifanc a'r gymuned a darparu sgiliau neu brofiadau newydd.

Pwy all wneud cais?
Rhaid i ymgeiswyr fod rhwng 16 a 25 oed ac yn grŵp neu'n unigolyn sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot

Beth ellir ei ariannu ganddo?
Cyfarpar i gynnal gweithgareddau megis bwrdd pŵl, offerynnau cerdd neu ddodrefn ac ati, Teithiau, Digwyddiadau, Hyfforddiant, Gweithdai.

Faint?
Mae grantiau'n amrywio rhwng £50-£500 (asesir ceisiadau am fwy yn unigol).

Dyddiad cau: Mae un dyddiad cau ar ôl ar gyfer 2011 / 2012, sef 30 Tachwedd 2011. Gellir cyflwyno ceisiadau unrhyw bryd gydol y flwyddyn a chânt eu cadw nes y dyddiad cau nesaf.

Cyswllt: Nigel Cram, Swyddog Datblygu Gwirfoddoli Ieuenctid,
CVS Castell-nedd Port Talbot, Tŷ Margaret Thorne, 17-19 Alfred Street, Castell-nedd, SA11 1EF
Ffôn: 01639 631387
nigelC@nptcvs.org.uk

Ymwadiad
Bwriedir y wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw unigolyn sy'n gweithredu neu sy'n gwrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sqwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 5FH
Elusen Gofrestredig *218093*

Ffôn: 0800 2888 329 help@wcva.org.uk
Ffacs: 029 2043 1701 www.wcva.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:19/09/2011

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk